# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)11-11

**Dyddiad:** Dydd Mawrth, 29 Mawrth 2011
**Amser:** 08.30
**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Nick Ramsay, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Is-adran Busnes y Cynulliad a Deddfwriaeth
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC(3)10-11 (cofnodion drafft) – Dydd Mawrth 22 Mawrth 2011**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, caent eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)11-11(p1)**

3.1 Cyhoeddodd y Gweinidog dros Fusnes y byddai'r eitemau a ganlyn yn digwydd dydd Mawrth 29 Mawrth:

Datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol am Adolygiad o Lywodraeth Leol: Ai Dyma'r Ffordd Orau o Ddarparu Gwasanaethau—Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol? (30 munud)

Datganiad gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes am Adroddiad ar Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru (30 munud)

3.2 Cytunodd y Pwyllgor na fyddai'r Cyfnod Pleidleisio yn digwydd cyn 17.00 ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn y busnes ar gyfer 29 a 30 Mawrth 2011.

3.4 Nododd y Pwyllgor y byddai pob pleidlais mewn perthynas â'r Mesur Addysg yn cael eu bwrw yn ystod trafodion Cyfnod 3 a 4.

### 4. Materion eraill

**(i) Effaith y Diddymiad ar y broses o wneud a gosod is-ddeddfwriaeth Gweinidogion Cymru – BC(3)11-11(p2)**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch yr is-ddeddfwriaeth a fyddai'n cael ei gosod gerbron y Cynulliad yn ystod yr wythnos yn dechrau 28 Mawrth 2011, cyn y Diddymiad.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n rhaid atal y Rheolau Sefydlog er mwyn galluogi'r Pwyllgor perthnasol i gyflwyno adroddiad ar yr offerynnau statudol y tu allan i'r terfyn amser arferol o 20 niwrnod ar gyfer cyflwyno adroddiad, o ystyried yr ansicrwydd ynglyn â'r amserlen ar gyfer sefydlu pwyllgorau'r Cynulliad yn dilyn yr etholiad.

### 5. Materion eraill

5.1 Diolchodd y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes am eu dull cydsyniol ac adeiladol o reoli busnes y Cynulliad ym Mhwyllgor Busnes y

Trydydd Cynulliad. Diolchodd y Llywydd hefyd i'r swyddogion am y cymorth a'r cyngor a roddwyd i'r Pwyllgor. Diolchodd y Gweinidog dros Fusnes i swyddogion Llywodraeth Cymru ac i swyddogion y Cynulliad am eu cymorth.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**